Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETH OEDOLION A PHOBL HŶN:

# Ymrwymiad Cymunedol

**I bobl hŷn gael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.**

Rydy ni eisiau i bobl hŷn a phobl sy'n byw gyda dementia gael eu cefnogi i ymgysylltu â'u cymuned leol a chael ansawdd bywyd ble caiff unigrwydd ei leihau.

I gyflawni hyn, byddwn ni'n gweithio tuag at:

- Gwella cysylltedd cymdeithasol ac annog perthynas gadarnhaol rhwng cenedlaethau.
- Sicrhau bod pobl hŷn a gofalwyr yn teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi a bod rhywun yn gwrando arnyn nhw wrth gael mynediad at wasanaethau, cymorth a gweithgareddau.
- Creu gweithgareddau cymunedol mwy hygyrch i bobl hŷn, a'r rhai sydd â nam ar y synhwyrau, anableddau corfforol neu broblemau symudedd.
- Sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chyngor am wasanaethau a chyfleoedd.





## BETH SY'N BWYSIG I BOBL HŶN?

Hoffai pobl hŷn weld cymorth a gweithgareddau cymunedol am ddim, cynnes, yn cael eu darparu trwy hybiau a sefydliadau trydydd sector.

Hefyd, hoffen nhw weld mwy o gyfleoedd ar gyfer cymysgu rhwng cenedlaethau a allai helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysrwydd ar gyfer pob grŵp oedran.

## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Cwmpasu'r gwasanaethau sydd ar gael ac amlygu bylchau.
- Cydgynhyrchu atebion i ddiwallu anghenion a nodwyd.

## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Pobl hŷn yn teimlo'n fwy cysylltiedig o fewn i'w cymunedau.
- Llai o unigrwydd ac ynysrwydd.
- Mwy o bobl yn manteisio ar weithgareddau a chymorth.

### DYWEDODD POBL

"Dwi'n fwy na fy anghenion cymorth, siaradwch â mi a gwrandewch. Peidiwch â gwneud rhagdybiaethau, derbyniwch y gallaf wneud fy mhenderfyniadau fy hun."